# Ymateb Ymgynghoriad

Gweler isod ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i gais ymgynghoriad Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd ynghylch gweithredu a chyflawni Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru, a'i ddiben yw dileu hiliaeth yng Nghymru.

Yn ddiweddar cyhoeddwyd ein Cynllun Corfforaethol newydd 'Byd Natur a Phobl yn Ffynnu Gyda'n Gilydd' a fydd yn mynd â ni i 2030. Mae cyfiawnder cymdeithasol yn sail i'r cynllun hwn yn ei gyfanrwydd ac rydym wedi ymrwymo'n llwyr i ddarparu amgylchedd gwaith cynhwysol sy'n hyrwyddo ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth ein holl gydweithwyr. Rydym yn falch o gael gwasanaethu pobl Cymru, a byddwn yn parhau i ddatblygu ein ffyrdd o weithio i fod yn gynhwysol, yn gynrychioliadol ac yn hygyrch. Rydym yn croesawu ein rôl yn arwain ar weithredu Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru, gan weithio'n agos ag eraill ar draws y sector cyhoeddus i wneud gwahaniaeth.

Fel rhan o hyn, cymerwyd camau ynglŷn ag amcanion personol ein Cadeirydd, Syr David Henshaw. Gan mai penodiad cyhoeddus ydyw, mae'r amcanion hyn yn cael eu gosod gan y Gweinidog, ac yn ei gwneud yn ofynnol iddo weithredu fel hyrwyddwr gwrth-hiliaeth ar gyfer y Bwrdd, a gosod amcanion amrywiaeth, cynhwysiant a gwrth-hiliaeth ar gyfer pob aelod o'r Bwrdd. Bwriedir cynnal sesiwn Datblygu'r Bwrdd yn ddiweddarach y mis hwn (Hydref 2023) lle bydd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn bwnc allweddol ar y diwrnod a bydd cynnwys am y cynllun hwn yn rhan o'r sesiwn. Ymdriniwyd hefyd â Chynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru yn adroddiad blynyddol CNC ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer 2022-2023, a bydd mesurau ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu cynnwys yn ein mesuriad perfformiad fel rhan o gyflawni ein cynllun corfforaethol.

Er mwyn i sefydliadau gyflawni uchelgeisiau'r cynllun gweithredu, credwn fod partneriaethau cydweithredol yn hanfodol er mwyn dysgu a chael mewnwelediad gwerthfawr o fentrau eraill, ac i glywed am ystod ehangach o brofiadau bywyd. Enghraifft dda iawn o'r gefnogaeth sydd ar gael oedd y gynhadledd 'Creu Cymru Wrth-Hiliol' ddiweddar a gynhaliwyd gan Senedd Insight, yng Nghaerdydd ar 27 Medi 2023. Cynigiodd enghreifftiau o sut mae ystod eang o sefydliadau yn ymateb i'r agenda, gan gynnwys Network Rail Cymru a sefydliadau'r GIG, yn ogystal â rhannu ymchwil academaidd ar addysg ysgolion a phrofiadau bywyd pobl. Cynigiodd hefyd rwydweithiau a chysylltiadau newydd i rannu syniadau ar gyfer gwella ac i greu mudiad. Anfonodd CNC ddau gynrychiolydd i'r gynhadledd hon ac mae cysylltiadau dilynol wedi'u gwneud. Rydym hefyd yn archwilio'r Cynllun Ardystio Cymhwysedd Diwylliannol ers i ni fod yn y digwyddiad hwn. Byddai mwy o ddigwyddiadau a gweithgareddau o'r fath yn adnodd defnyddiol iawn.

Her barhaus y mae pob sefydliad yn ei hwynebu yw hyder cydweithwyr i rannu eu data ethnigrwydd. Po fwyaf o gynnydd y gellir ei wneud i feithrin sefydliadau 'cynrychioliadol', y mwyaf o hyder a fydd gan gydweithwyr i ddatgan nodweddion personol. Bydd mewnwelediad allanol ehangach a rhannu data ar gynrychiolaeth y gweithlu i gynorthwyo sefydliadau i weld maint y bylchau, ac i weld 'sut olwg sydd ar statws da' yn gymorth i ddeialogau mewnol gyda'n Bwrdd a'n tîm Gweithredol.

Yn olaf, daw llwyddiant o fudiad o sefydliadau ac arweinwyr yn cydweithio i greu'r newid yr ydym am ei weld. Mae'n bwysig bod cymorth ar gael i ategu hyn er mwyn helpu'r rhai sydd ag atgofion o'u trawma cynnar o hiliaeth, ac i gynorthwyo'r ymgais i amlygu profiadau bywyd, a gellid darparu'r gwasanaeth hwn ar raddfa fawr ar draws sawl sefydliad.